## Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## CLA527 - Rheoliadau Cynllun Taliad Sylfaenol a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2015

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth, o ran Cymru, ar gyfer gweinyddu Rheoliad (EU) Rhif 1307/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu'r rheolau ar gyfer taliadau uniongyrchol i ffermwyr o dan gynlluniau cymorth o fewn fframwaith y polisi amaethyddol cyffredin (OJ Rhif L 347, 20.12.2013, t. 608) ("y Rheoliad Taliadau Uniongyrchol") a'r tri o Reoliadau cysylltiedig eraill yr UE y cyfeirir atynt yn rheoliad 2(1).

**Gweithdrefn**: Negyddol

### 1. Materion technegol: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.2 (v) a (vi) mewn perthynas â'r offeryn hwn, sef ei fod angen eglurhad pellach oherwydd drafftio diffygiol.

Mae rheoliad 17 yn honni ei fod yn diddymu Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2010 a Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) (Diwygio) 2012. Diddymwyd y Rheoliadau hynny'n flaenorol gan Reoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (System Integredig Gweinyddu a Rheoli a Gorfodi a Thrawsgydymffurfio) (Cymru) 2014 ('Rheoliadau 2014'). Mae Rheoliad 17 a Rheoliadau 2014 yn cynnwys darpariaethau arbed, ond nid yw'n eglur beth yw effaith gyfunol dirymiad dwbl a dwy gyfres o ddarpariaethau adfer.

### 2. Rhagoriaethau: Craffu

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 (ii) mewn perthynas â'r offeryn hwn sef ei fod o bwysigrwydd cyhoeddus sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.

Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 14 Mai 2015 ac mae rheoliad 10(1) yn ei gwneud yn ofynnol i geisiadau gael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru erbyn 15 Mai. Nid yw'r Rheoliadau na'r Memorandwm Esboniadol yn egluro sut y disgwylir i ymgeiswyr gydymffurfio â'r terfyn amser cyfyngedig iawn hwn. Dylai'r Memorandwm Esboniadol fod wedi egluro pa gamau a gymerwyd gan Weinidogion Cymru cyn y daw'r Rheoliadau i rym, er mwyn galluogi ceisiadau i gael eu cyflwyno erbyn y dyddiad cau hwnnw.

## 3. Ymateb y Llywodraeth

### Technegol

Mae Rheoliad 17 o Reoliadau Cynllun Taliad Sylfaenol a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2015 ("Rheoliadau 2015") yn dirymu Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) 2010 ("Rheoliadau 2010") a Rheoliadau Cynllun Taliad Sengl a Chynlluniau Cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (Cymru) (Diwygio) 2012 ("Rheoliadau 2012"). Fodd bynnag, mae Rheoliadau 2015 yn cynnwys darpariaethau arbed ac o ganlyniad i'r rheini, mae Rheoliadau 2010 yn parhau yn gymwys mewn cysylltiad â cheisiadau am gymorth o ran 2014 a blynyddoedd hawlio cynharach. Dirymwyd Rheoliadau 2010 a Rheoliadau 2012 eisoes gan Reoliadau'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (System Integredig Gweinyddu a Rheoli a Gorfodi a Thrawsgydymffurfio) (Cymru) 2014 ("Rheoliadau 2014") a oeddent hefyd yn cynnwys darpariaethau arbed mewn cysylltiad â cheisiadau am gymorth.

Tra derbynnir bod y ddarpariaeth ddirymu yn Rheoliadau 2015 yn dyblygu'r un yn Rheoliadau 2014, rydym o'r farn nad oes effaith gyfreithiol, andwyol i hyn. Dirymodd Rheoliadau 2015 Rheoliadau 2010 fel yr oedd y rheini wedi'u harbed gan Reoliadau 2014, ond gwnaethant arbediad pellach o Reoliadau 2010 er mwyn i'r Rheoliadau hynny barhau'n gymwys i geisiadau am gymorth o ran 2014 a blynyddoedd hawlio cynharach.

### Rhagoriaeth

Mae ceisiadau ar gyfer y Cynllun Taliad Sylfaenol wedi bod ar agor ar-lein ers 25 Chwefror ac ar bapur ers 15 Mawrth. 15 Mai yw'r dyddiad cau. Mae angen i'r ddeddfwriaeth hon fod yn ei lle er mwyn dilysu'r wybodaeth a dderbynnir ar ffurflenni cais ceiswyr. Derbyniodd pob ceisydd sy'n hysbys i

Taliadau Gwledig Cymru lyfryn drwy'r post ganol mis Mawrth, yn rhoi manylion rheolau'r cynllun yn llawn.

Mae'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid a'r gwasanaethau rheng flaen yn Swyddfeydd Rhanbarthol Caernarfon, Caerfyrddin a Llandrindod wedi bod ar agor tan 7pm yr wythnos hon a byddant yn parhau i fod ar agor tan 7pm hyd at a chan gynnwys 13 Mai. Estynnir yr oriau agor i 9pm ar 14 a 15 Mai. Mae'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid ar gael ac mae'r swyddfeydd hefyd ar agor rhwng 8:30am a 2pm y penwythnos hwn.

Mae Taliadau Gwledig Cymru yn darparu ystod lawn o wasanaethau yn y Swyddfeydd Rhanbarthol yn ystod yr oriau estynedig fel y gall cwsmeriaid gyflwyno eu ffurflenni Cais Sengl, a hynny ar-lein os oes modd. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Apwyntiadau cymorth digidol i gwsmeriaid sydd angen cymorth i gyflwyno eu ceisiadau ar-lein
- Apwyntiadau mapio i gwsmeriaid sy'n cael trafferth gydag arwynebedd parseli tir ac ati
- Cyngor cyffredinol i gwsmeriaid ynghylch ffurflenni'r Cais Sengl
- Derbyn ffurflenni papur

Mae gwasanaeth ar-lein Taliadau Gwledig Cymru yn cynnwys proses ddilysu er mwyn sicrhau bod amryw o'r camgymeriadau arferol y bydd ffermwyr yn eu gwneud yn cael eu gwirio, a bod ffermwyr yn cael cyfle i'w cywiro cyn cyflwyno'r ffurflen. Mae hyn yn osgoi'r posibilrwydd o gosbau ac oedi wrth brosesu.

Roedd rhifynnau Ionawr a Mawrth o 'Gwlad' yn hysbysu ffermwyr o'r dyddiadau y gallent gychwyn gwneud cais gan ddefnyddio dulliau ar-lein a phapur. Anfonwyd llythyr hefyd at bob ceisydd oedd yn hysbys inni yn ystod wythnos gyntaf mis Mawrth, i'w hatgoffa bod gwasanaeth ar-lein Taliadau Gwledig Cymru ar agor er mwyn cwblhau ffurflenni'r Cais Sengl, ac yn egluro manteision defnyddio'r system ar-lein (anfonwyd cod actifadu at bob un oedd heb gofrestru eisoes ar y system).

## 4. Ystyriaeth y Pwyllgor

Ystyriodd y Pwyllgor yr offeryn yn ei gyfarfod ar 11 Mai 2015 ac mae’n cyflwyno adroddiad i’r Cynulliad yn unol â’r pwyntiau adrodd yn adrannau 1 a 2 uchod.